**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd

4 Hydref 2017

Annwyl Llywydd

DIWYGIO'R CYNULLIAD: ANGHYMHWYSO, DIFENWI, DIRMYG LLYS A BRAINT Y CYNULLIAD

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Awst 2017; fe'i trafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 25 Medi 2017.

Mae gennym raglen waith brysur ar gyfer tymor yr hydref; byddwn yn canolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth, cwblhau ein hymchwiliad i Lais Cryfach, a chraffu ar Fil UE (Ymadael) Llywodraeth y DU. Serch hynny, fel cam cyntaf, rydym wedi gofyn am rywfaint o gyngor ar y materion a godwyd gennych gyda'r bwriad o'u hystyried yn ddiweddarach yn y tymor.

Ysgrifennwn eto pan fyddwn ni wedi trafod y cyngor hwnnw ac ar ôl i'n rhaglen waith ar gyfer craffu ar yn Bil Ymadael ddod yn fwy eglur yng ngoleuni hynt y Bil trwy Senedd y DU.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565